



Fran Lewis LLB, MSc
Pennaeth Gwella Corfforaethol ac Adnoddau Dynol
Gwelliant Corfforaethol ac Adnoddau Dynol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

3 Chwefror 2022

Annwyl Fran

Adolygiad o Gyflog y Prif Weithredwr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cafodd eich cais ynghylch adolygu cyflog y Prif Weithredwr ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn cyfarfod ar 25 Ionawr. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly cafwyd cworwm yn y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel mewn perthynas â chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Awgrymu newidiadau i'r cynnig

Ar ôl edrych ar y cais gan eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig ar gyfer cyflog swydd y Prif Weithredwr fel y'i cyflwynwyd gan y Cyngor.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd